OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2439 (Cy.212)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*15 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 9, 17F(2), 19(1) a (4), 19A, 32(1), (2) a (3), 57(1)(b), 58A(1)(b), 64(2), 64H(2) a 134(3A)(a) ac (8) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn yn unol ag adran 57(4) a 58A(8), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol—

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**2**);

mae "cyflwyno" ("*served*"), mewn perthynas â dogfen, yn cynnwys ei chyfeirio, ei thraddodi, ei rhoi, ei hanfon ymlaen, ei darparu neu ei hanfon;

ystyr "diwrnod busnes" ("*business day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc;

(**1**) 1983, p.20, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, p.12.
(**2**) 2000 p.7.

ystyr "dogfen" ("*document*") yw unrhyw gais, argymhelliad, cofnod, adroddiad, gorchymyn, hysbysiad neu ddogfen arall;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983;

ystyr "gwarcheidwad preifat" ("*private guardian*"), mewn perthynas â chlaf, yw person, ac eithrio awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, sy'n gweithredu fel gwarcheidwad o dan y Ddeddf;

ystyr "gŵyl banc" ("*bank holiday*") yw gŵyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol(**3**);

ystyr "ysbyty arbennig" ("*special hospital*") yw ysbyty lle y darperir gwasanaethau seiciatrig tra diogel;

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**4**) yn ôl y digwydd.

(2) Ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at —

(a) adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran o'r Ddeddf sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(b) rheoliad â Rhif neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn, neu'r Atodlen iddynt, sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(c) paragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(ch) ffurflen alffaniwmerig yn gyfeiriad at y ffurflen yn Atodlen 1 honno sy'n dwyn y dynodiad hwnnw.

Dogfennau

3.—(1) Ac eithrio mewn achos y mae paragraffau (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys iddo, caniateir i unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei chyflwyno i unrhyw awdurdod, corff neu berson gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf (derbyniad gorfodol i ysbyty, gwarcheidiaeth a thriniaeth gymunedol o dan oruchwyliaeth) neu'r Rheoliadau hyn gael ei chyflwyno —

(a) drwy ei thraddodi i'r awdurdod, corff neu berson y mae i'w chyflwyno iddo; neu

(b) drwy ei thraddodi i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i'w chael gan yr awdurdod, y corff neu'r person hwnnw; neu

(c) drwy ei hanfon yn rhagdaledig drwy'r post a'i chyfeirio at —

(i) yr awdurdod neu'r corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa, neu

(ii) y person y mae i'w chyflwyno iddo ym mhreswylfan arferol neu breswylfan hysbys ddiwethaf y person hwnnw; neu

(ch) drwy ei thraddodi gan ddefnyddio system post mewnol a ddefnyddir gan yr awdurdod, y corff neu'r person.

(2) Rhaid i unrhyw gais am dderbyn claf i ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf gael ei gyflwyno drwy draddodi'r cais i un o swyddogion rheolwyr yr ysbyty, y cynigir bod y claf yn cael ei dderbyn iddo, sef swyddog a awdurdodwyd ganddynt i gael y cais hwnnw.

(3) Pan fo claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf, rhaid cyflwyno—

(a) unrhyw orchymyn gan berthynas agosaf y claf o dan adran 23 i ollwng y claf, a

(b) yr hysbysiad o'r gorchymyn hwnnw o dan adran 25(1) —

(**3**) 1971 p.80.
(**4**) 2007 p.15.

(i) drwy draddodi'r gorchymyn neu'r hysbysiad yn yr ysbyty hwnnw i un o swyddogion y rheolwyr sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu

(ii) drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post at y rheolwyr hynny yn yr ysbyty hwnnw, neu

(iii) drwy ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.

(4) Pan fo claf yn glaf cymunedol, rhaid cyflwyno—

(a) unrhyw orchymyn gan ei berthynas agosaf o dan adran 23(1A) i ollwng y claf, a

(b) yr hysbysiad o'r gorchymyn hwnnw a roddir o dan adran 25(1A) —

(i) drwy draddodi'r gorchymyn neu'r hysbysiad yn ysbyty cyfrifol y claf i un o swyddogion y rheolwyr sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu

(ii) drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post at y rheolwyr hynny yn yr ysbyty hwnnw, neu

(iii) drwy ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.

(5) Rhaid cyflwyno unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 5(2) (cadw claf yn gaeth sydd eisoes wedi bod yn yr ysbyty am 72 awr) drwy—

(a) ei draddodi i un o swyddogion rheolwyr yr ysbyty sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu

(b) ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.

(6) Pan fo dogfen y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn yn cael ei hanfon yn rhagdaledig drwy—

(a) post dosbarth cyntaf, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl y dyddiad postio;

(b) post ail ddosbarth, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd ar y pedwerydd diwrnod busnes ar ôl ei phostio;

oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(7) Pan fo dogfen o dan y rheoliad hwn wedi'i thraddodi gan ddefnyddio system post mewnol, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd yr union adeg y cafodd ei thraddodi i'r system post mewnol.

(8) Yn ddarostyngedig i adrannau 6(3) ac 8(3) (profi ceisiadau), caniateir i unrhyw ddogfen, sy'n ofynnol neu sydd wedi'i hawdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn ac sy'n honni ei bod wedi'i lofnodi gan berson y mae'n ofynnol iddo wneud hynny, neu y mae wedi'i awdurdodi i wneud hynny, gan neu o dan y Rhan honno neu'r Rheoliadau hyn, gael ei derbyn yn dystiolaeth ac i gael ei hystyried yn ddogfen o'r fath heb brawf pellach, oni phrofir y gwrthwyneb.

(9) Bernir bod unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol iddi gael ei chyfeirio at reolwyr ysbyty'n unol â'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn wedi'i chyfeirio'n briodol at y rheolwyr hynny os yw wedi'i chyfeirio at weinyddydd yr ysbyty hwnnw.

(10) Pan fo'n ofynnol o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn i reolwyr ysbyty wneud unrhyw gofnod neu adroddiad, caniateir i'r swyddogaeth honno gael ei chyflawni gan swyddog a awdurdodwyd gan y rheolwyr hynny yn y cyswllt hwnnw.

(11) Pan fo'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn i gael cytundeb rheolwyr ysbyty ar gyfer penderfyniad i dderbyn cyflwyniad drwy ddull penodol, caniateir i'r cytundeb hwnnw gael ei roi gan swyddog a awdurdodwyd gan y rheolwyr hynny yn y cyswllt hwnnw.

RHAN 2

Gweithdrefnau a Chofnodion ynghylch Derbyniadau i Ysbyty

Y weithdrefn ar gyfer derbyniadau i ysbyty a dull eu cofnodi

4.—(1) At ddibenion derbyn i ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf —

(a) rhaid i unrhyw gais am dderbyniad i gael asesiad o dan adran 2 fod ar y ffurf a nodir—

(i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 1;

(ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 2;

(b) rhaid i unrhyw argymhellion meddygol at ddibenion adran 2 fod ar y ffurf a nodir–

(i) yn achos cydargymhellion, yn Ffurflen HO 3,

(ii) mewn unrhyw achos arall, yn Ffurflen HO 4;

(c) rhaid i unrhyw gais am dderbyniad i gael triniaeth o dan adran 3 fod ar y ffurf a nodir—

(i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 5,

(ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 6;

(ch) rhaid i unrhyw argymhellion meddygol at ddibenion adran 3 fod ar y ffurf a nodir–

(i) yn achos cydargymhellion, yn Ffurflen HO 7,

(ii) mewn unrhyw achos arall, yn Ffurflen HO 8;

(d) rhaid i unrhyw gais brys o dan adran 4 fod ar y ffurf a nodir—

(i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 9,

(ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 10;

(dd) rhaid i unrhyw argymhelliad meddygol at ddibenion adran 4 fod ar y ffurf a nodir yn Ffurflen HO 11;

(e) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan is-adran (2) o adran 5 (cadw claf yn gaeth sydd eisoes mewn ysbyty am 72 awr) gan

(i) yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r clinigydd cymeradwy sydd â gofal dros driniaeth y claf, neu

(ii) unrhyw berson o'r fath a enwebir gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r clinigydd cymeradwy i weithredu drostynt

fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 1 o Ffurflen HO 12 a rhaid i reolwyr yr ysbyty gofnodi yn Rhan 2 o'r Ffurflen honno bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law;

(f) rhaid i unrhyw gofnod a wneir o dan is-adran (4) o adran 5 (pŵer i gadw claf mewnol yn gaeth am uchafswm o 6 awr) gan nyrs o'r dosbarth a ragnodir am y tro at ddibenion yr is-adran honno(**5**) fod ar y ffurf a nodir yn Ffurflen HO 13.

(2) At ddibenion cywiro ceisiadau neu argymhellion o dan adran 15, caiff rheolwyr yr ysbyty y mae claf wedi'i dderbyn iddo'n unol â chais am asesiad neu am driniaeth awdurdodi mewn ysgrifen swyddog ar ran y rheolwyr hynny –

(a) i gydsynio o dan is-adran (1) o'r adran honno i ddiwygio'r cais neu unrhyw argymhelliad meddygol a roddir at ddibenion y cais;

(**5**) Gweler Gorchymyn Iechyd Meddwl (Nyrsys) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2441 (Cy.214)).

(b) i ystyried pa mor ddigonol yw argymhelliad meddygol ac, os bernir bod yr argymhelliad yn annigonol, i roi hysbysiad ysgrifenedig fel sy'n ofynnol gan is-adran (2) o'r adran honno.

(3) Pan fo claf wedi'i dderbyn i ysbyty yn unol â chais o dan adran 2, 3 neu 4, rhaid i hynny gael ei gofnodi gan reolwyr yr ysbyty hwnnw ar y ffurf a osodir yn Ffurflen HO 14 a chael ei gysylltu wrth y cais neu, yn ôl y digwydd, yr argymhelliad.

(4) At ddibenion unrhyw argymhelliad meddygol o dan adrannau 2, 3 a 4 (derbyniad i gael asesiad, derbyniad i gael triniaeth a derbyniad i gael asesiad mewn achosion brys yn y drefn honno) yn achos —

(a) argymhelliad unigol a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;

(b) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae'r ddau feddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;

(c) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae un meddyg wedi'i archwilio yng Nghymru ac un meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn neu ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr.

Adnewyddu awdurdod i gadw'n gaeth

5. At ddibenion adnewyddu awdurdod i gadw claf yn gaeth a dderbyniwyd i ysbyty yn unol â chais am driniaeth—

(a) rhaid i unrhyw adroddiad a wnaed gan glinigydd cyfrifol at ddibenion adran 20(3) (argymhelliad meddygol i adnewyddu awdurdod i gadw'n gaeth) fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen HO 15;

(b) rhaid i'r datganiad a wnaed gan berson sydd wedi bod yn ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf at ddibenion adran 20(5A) (cytundeb ag argymhelliad meddygol) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 2 o Ffurflen HO 15;

(c) rhaid i unrhyw adnewyddiad o awdurdod i gadw'n gaeth o dan adran 20(8) gael ei gofnodi gan reolwyr yr ysbyty lle y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ar y ffurf a osodir yn Rhan 4 o Ffurflen HO 15.

Cadw'n gaeth ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau

6. O ran claf sy'n agored i gael ei gadw'n gaeth ar ôl cael ei gymryd i gystodaeth neu ddychwelyd ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau—

(a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 21B(2) (awdurdod i gadw'n gaeth yn achos cleifion sy'n cael eu cymryd i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen HO 16;

(b) rhaid i'r ffaith bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law gael ei chofnodi gan reolwyr yr ysbyty lle y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen HO 16.

Gollwng cleifion sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth gan glinigwyr cyfrifol neu reolwyr ysbyty

7. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol neu'r rheolwyr ysbyty o dan adran 23(2)(a) (gollwng cleifion) i ollwng claf sy'n agored i gael ei gadw'n gaeth o dan y Ddeddf fod ar